# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 4

OSGOI A DATRYS ANGHYTUNDEBAU

*Apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys*

VALID FROM 01/09/2021

### 72 Hawliau o ran apelio: personau sy'n cael eu cadw'n gaeth

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys—

(a) i benderfyniadau awdurdod cartref yng Nghymru o dan adran 40;

(b) i gynlluniau datblygu unigol a gedwir gan awdurdod cartref o dan adran 42.

(2) Caiff person sy'n cael ei gadw'n gaeth ac, yn achos person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn, rhiant y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y materion a ganlyn—

(a) penderfyniad gan yr awdurdod cartref o ran a oes gan berson sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol;

(b) penderfyniad gan yr awdurdod cartref o ran a fydd angen i gynllun datblygu unigol gael ei gynnal ar gyfer person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan gaiff y person ei ryddhau;

(c) y disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person mewn cynllun datblygu unigol;

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/01/2021. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 72 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(d) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun datblygu unigol neu'r ffaith nad yw darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun (gan gynnwys a yw'r cynllun yn pennu y dylai darpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei darparu yn Gymraeg);

(e) y ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys mewn cynllun datblygu unigol o dan adran 40(7) neu'r ffaith nad yw darpariaeth o dan o dan yr adran honno yn y cynllun;

(f) yr ysgol a enwir mewn cynllun datblygu unigol at ddiben adran 48;

(g) os nad enwir ysgol mewn cynllun datblygu unigol at ddiben adran 48, y ffaith honno;

(h) gwrthodiad i wneud penderfyniad o dan adran 40(2) ar y sail bod adran 41(2)(b) yn gymwys (dim newid sylweddol mewn anghenion a dim gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad).

(3) Mae arfer hawliau o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i—

(a) darpariaeth a wneir gan reoliadau o dan adrannau 74, 75, 83 ac 85(8);

(b) adran 85(4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 72 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/01/2021. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 72 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 07 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.